



## Sesiwn 1: Saesneg

Cyfnod Allweddol  
2 Is  
(Blynyddoedd 3 a  
4)

Rhaglen Ddysgu

Cwricwlwm  
Cenedlaethol:

- Cymryd rhan mewn trafodaethau, cyflwyniadau, perfformiadau, chwarae rôl, addasu ar y pryd a dadleuon
- Datrys geiriau newydd – ymestyn geirfa

# Esboniadau Cyffrous

Iaith lafar gan ddefnyddio symudiadau a geiriau ar y thema PARCH.


## A I ddechrau

### Symud er mwyn Dysgu

Carreg Fawr, Papur, Siswrn

Fersiwn Bat/Pêl/Wiced: Symud y corff cyfan. Cystadleuaeth fach yn erbyn partner. Cyfnewid Carreg/Papur/Siswrn am fat (siâp hir tal)/pêl (siâp crwn)/wiced neu stympiau (siâp seren).


- Bat yn bwrw (curo'r) bêl – bat sy'n ennill
- Pêl yn bwrw'r wiced – pêl sy'n ennill
- Bat yn bwrw'r wiced – wiced sy'n ennill



Bat



Pêl



Wiced

Trafodwch pwy sy'n gwneud yn siŵr bod pawb yn cadw at y rheolau yn yr ysgol/amser chwarae ac ati. Beth sy'n digwydd weithiau pan fydd neb yn gofalu am y rheolau?

Cysylltwch hyn â PHARCH a dealltwriaeth o beth mae hynny'n ei olygu yn yr ysgol, ac wrth chwarae criced.

Trafodwch rôl Dyfarnwyr ar y cae criced. Sut maen nhw'n gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod beth yw eu penderfyniad? Ateb: Signalau.



---

## Sesiwn 1: Saesneg

---

Cyfnod Allweddol  
2 Is  
(Blynyddoedd 3 a  
4)

---

Rhaglen Ddysgu

---

Cwricwlwm  
Cenedlaethol:

- Cymryd rhan mewn trafodaethau, cyflwyniadau, perfformiadau, chwarae rôl, addasu ar y pryd a dadleuon
- Datrys geiriau newydd – ymestyn geirfa

---

### **B** Prif Weithgaredd

---

## Symudiadau'r Dyfarnwr

Dangoswch 6 signal yna gofynnwch i'r disgyblion i gopïo'ch symudiadau.

Rhannwch yn barau. Rhowch gerdyn signal i bob pâr ei ddysgu a'i addysgu i grŵp arall a fydd yn ymweld â'u bwrdd. Esboniwch y gallant ei addysgu drwy arddangos, esbonio a/neu destun ysgrifenedig/diagramau (defnyddiwch fyrddau gwyn).

Ewch o amgylch y parau nes bod pob un o'r 6 signal gennych.

Chwaraewch y gêm 'Mae Seimon yn Dweud' i wneud yn siŵr bod pawb wedi deall.

**A** Adnodd Cardiau Signalau Dyfarnwr

---

### **C** Yr Her


---

## Pelawd a Mwy!


Nawr eich bod wedi dysgu 6 signal Dyfarnwr, gallwch eu troi nhw'n stori am belawd criced (6 phêl).

Beth sy'n digwydd gyda phob pêl?


Dewiswch y signal y byddech yn ei roi, gan ymestyn y stori gyda geiriau diddorol!



Bei



Llinell Derfyn  
4 rhediad




Llinell Derfyn  
6 rhediad



Dim  
pelawd



Pêl lydan



Alla  
n



---

## Sesiwn 2: Saesneg

---

Cyfnod Allweddol  
2 Is  
(Blynyddoedd 3 a  
4)

---

Rhaglen Ddysgu

---

Cwricwlwm  
Cenedlaethol:

- Cymryd rhan mewn trafodaethau, cyflwyniadau, perfformiadau, chwarae rôl, addasu ar y pryd a dadleuon
- Datrys geiriau newydd – ymestyn geirfa

---

# Sylwebydd Gwallgof

Siarad a gwrando gan ddefnyddio golygfeydd criced, cyfryngau gwahanol, a drama i gyfleu emosiynau ac ystyr.

---

## A I ddechrau

---

### Drama Gorfforol

Defnyddio siapiau corfforol i gyfleu ystyr

- Pa fynegiant wyneb fydddech chi'n debygol o'i weld mewn gêm criced?
- Pa ystumiau corfforol fydddech chi'n debygol o'u gweld?
- Fferru ffrâm golygfa griced – y chwaraewyr
- Fferru ffrâm - y gwylwyr.
- Fferru ffrâm - y blwch sylwebu.

Tracio meddyliau

- Beth sydd ar feddwl y gwahanol bobl yn y ffrâm fferru?
- Dywedwch yn uchel pan fydd rhywun yn cyffwrdd â'ch ysgwydd.

**A** Adnodd Cardiau Llun – Chwaraewyr, Gwylwyr, Hyfforddwr



---

## Sesiwn 2: Saesneg

---

Cyfnod Allweddol  
2 Is  
(Blynyddoedd 3 a  
4)

---

Rhaglen Ddysgu

---

Cwricwlwm  
Cenedlaethol:

- Cymryd rhan mewn trafodaethau, cyflwyniadau, perfformiadau, chwarae rôl, addasu ar y pryd a dadleuon
  - Datrys geiriau newydd – ymestyn geirfa
- 

---

## **B** Prif Weithgaredd

---

### Y Gadair Holi

Gallai'r plant wyllo clip o gêm griced neu gael llun i'w hysgogi a rhoi rhywfaint o gyd-destun i'r gweithgaredd.

Cyfweliadau:

Holwch y gwahanol bobl sydd i'w gweld mewn gêm griced/(pobl yn y llun) e.e.:

- chwaraewyr
- gwylwyr
- hyfforddwyr
- tirmyn
- gohebwy'r chwaraeon ac ati

Mae'r plant yn meddwl am gwestiynau i ofyn i'w gilydd.

Mae'r plant yn cynllunio/cynnal cyfweliad rhwng cyfwelydd chwaraeon ag un ai hyfforddwr/chwaraewr neu wylwr. (Cyswllt TGCh: defnydd o iPad/iMovie ac ati) neu adroddiad newyddion ar gyfer y teledu.

---

## **C** Yr Her

---

### Hawl i Holi!

Recordiwch gyfweliad gan ddefnyddio unrhyw ffurf/cyfrwng

TGCh fel bo'n addas. Cyswllt TGCh: defnydd o iPad/iMovie ac ati.



---

## Sesiwn 3: Saesneg

---

Cyfnod Allweddol  
2 Is  
(Blynyddoedd 3 a  
4)

---

Rhaglen Ddysgu

---

Cwricwlwm  
Cenedlaethol:

- Paratoi i ysgrifennu drwy drafod ysgrifennu tebyg i'r hyn maen nhw'n bwriadu'u ysgrifennu er mwyn deall a dysgu o'i strwythur, geirfa a gramadeg.
- Drafftio ac ysgrifennu deunydd di-naratif gan ddefnyddio dyfeisiau trefnu syml, er enghraifft, penawdau ac is-benawdau.

---

# Cyfarwyddiadau Call

---

Ysgrifennu am reolau gwahanol fathau o griced gan ddefnyddio enghreifftiau.

---

## A I ddechrau

---

### Nid criced yw hwnna?!

Edrychwch ar y gwahanol ddisgrifiadau o griced:

1. Disgrifiad MCC
2. Criced Bwrdd
3. Kwik Cricket

**A** Adnodd Disgrifiadau o Griced

---

## B Prif Weithgaredd

---

### Geiriau Gorchymyn

Trafodwch y 'berfau gorchymynol' a ddylai fod yn rhan o bob cyfarwyddyd e.e. rhedwch, bowliwch, daliwch. Ychwanegwch symudiadau os yw'n help i ddeall. Defnyddiwch luniau (diagramau) ac ysgrifennu cyfarwyddol – esboniwch un o'r fersiynau o griced yn eich geiriau eich hun. Allwch chi wneud iddo swnio'n fwy diddorol na'r enghreifftiau?

---

## C Yr Her

---

### Drosodd Atoch Chi!

All eich grŵp chi esbonio'u fersiwn nhw o'r gêm i grŵp arall yna paratoi a dysgu grŵp arall i'w chwarae?



---

## Sesiwn 4: Saesneg

---

Cyfnod Allweddol  
2 Is  
(Blynyddoedd 3 a  
4)

---

Rhaglen Ddysgu

---

Cwricwlwm  
Cenedlaethol:

- Darllen erthygl yn gywir a chyda dealltwriaeth
- Cip-ddarllen (sgimio) am wybodaeth benodol
- Defnyddio mapiau i ddod o hyd i lefydd
- Cynllunio poster clir a thrawiadol
- Cynnwys llun a gwybodaeth allweddol ar y poster

---

# Dirgelwch y Masgot

Darllen a deall gan ganolbwyntio ar ddaearyddiaeth a chynllunio.

---

## A I ddechrau

---

### Chwilio am Seren

Darllenwch yr erthygl papur newydd am y masgot criced All Stars sydd ar goll.

**A** Adnodd Erthygl Papur Newydd

---

## B Prif Weithgaredd

---

### Canfod Seren

Atebwch y cwestiynau darllen a deall. Cynlluniwch boster Yn Eisiau ar gyfer y masgot criced All Stars sydd ar goll.

**A** Adnodd Taflen Waith: Darllen a Deall

Anfonwch eich posteri gorau at Chance to Shine a byddwn yn eu cyhoeddi ar ein gwefan: [chancetoshine.org](http://chancetoshine.org)

Sganiwch eich posteri a'u he-bostio i [info@chancetoshine.org](mailto:info@chancetoshine.org) neu postiwch nhw aton ni yn: Chance to Shine Kia Oval, The Laker Stand, Kennington, London, SE11 5SW.



---

## Sesiwn 4: Saesneg

---

Cyfnod Allweddol  
2 Is  
(Blynyddoedd 3 a  
4)

---

Rhaglen Ddysgu

---

### Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Darllen erthygl yn gywir a chyda dealltwriaeth
- Cip-ddarllen (sgimio) am wybodaeth benodol
- Defnyddio mapiau i ddod o hyd i lefydd
- Cynllunio poster clir a thrawiadol
- Cynnwys llun a gwybodaeth allweddol ar y poster

---

### Yr Her

---

## Symud er mwyn Ddysgu

Edrychwch ar fap syml o brifddinas Cymru, Caerdydd ac amlygwch rai o'r lleoliadau allweddol a grybwyllir yn yr erthygl.

Oeddech chi'n gwybod mai Gerddi Sophia oedd un o'r lleoliadau ar gyfer Tlws Pencampwyr yr ICC 2017?

Edrychwch ar fap o'ch tref neu ddinas leol. Allwch chi nodi safleoedd neu adeiladau allweddol? Allwch chi fynd am dro o amgylch eich ardal leol a nodi safleoedd neu adeiladau amlwg?



---

## Sesiwn 5: Saesneg

---

Cyfnod Allweddol  
2 Is  
(Blynyddoedd 3 a  
4)

---

Rhaglen Ddysgu

---

Cwricwlwm  
Cenedlaethol:

- Paratoi cerddi a sgrïptiau dramâu i'w darllen yn uchel a'u perfformio, gan ddangos dealltwriaeth drwy oslef, tonyddiaeth, uchder y llais, a symudiadau
- Adalw a chofnodi gwybodaeth o ddeunydd ffeithiol

---

## Barddoniaeth Ymarferol

Perfformio sgrïptiau dramâu a barddoniaeth ar y thema criced.

---

### A I ddechrau

---

## Chwarae â Cherddi

Edrychwch ar enghreifftiau o gerddi criced.

Cymharwch yr hyn sy'n debyg neu'n wahanol am eu harddull a'u strwythur

A Adnodd: Taflen Waith: Cerddi Criced

---

### B Prif Weithgaredd

---

## Cyflwyno'r Cerddi

Mewn parau neu grwpiau bach ychwanegwch oslef, tonyddiaeth, uchder y llais, a symudiadau i gerdd o'ch dewis, a'i darllen yn uchel i'r dosbarth.

---

### C Yr Her

---

## Bardd Slam

Ysgrifennwch eich cerdd griced eich hun. Perfformiwch hi mewn slam farddoniaeth.

Anfonwch eich cerddi gorau i Chance to Shine a byddwn yn eu cyhoeddi ar ein gwefan [chancetoshine.org](http://chancetoshine.org). Sganiwch eich cerddi a'u he-bostio i [info@chancetoshine.org](mailto:info@chancetoshine.org) neu postiwch nhw aton ni yn: Chance to Shine Kia Oval, The Laker Stand, Kennington, London, SE11 5SW.





---

## Sesiwn 6: Saesneg

---

Cyfnod Allweddol  
2 Is  
(Blynyddoedd 3 a  
4)

---

Rhaglen Ddysgu

---

Cwricwlwm  
Cenedlaethol:

- Atalnodi brawddegau gan ddefnyddio prif lythyren ac atalnod llawn, marc cwestiwn neu ebychnod

---

# Atalnodi Grymus

Datblygu gramadeg cywir drwy ddefnyddio symudiadau a brawddegau/straeon sy'n ymwneud â chriced

---

**A** I ddechrau

---

## Ymarfer Atalnodi

Y	!	.	?	,
Prif Lythyren	Ebychnod	Atalnod Llawn	Marc Cwestiwn	Coma

Defnyddiwch yr enghreifftiau yn y diagram i ymarfer atalnodi.

Rhowch gynnig ar greu prif lythyren gyda'ch corff cyfan. Dangoswch i bartner, i weld a ydyn nhw'n gwybod pa lythyren yw hi. Allwch chi greu llythyren gyda'ch partner?

- R** Adnodd Cardiau Atalnodi  
Adnodd Taflen Waith: Atalnodi
- 

**B** Prif Weithgaredd

---

## Atalnodi Grymus

Ychwanegwch yr atalnodi cywir i'r brawddegau criced canlynol:

- A ydy'r batiwr allan?
- Dyna ddaliad gwych!
- Rhedodd y maeswr i gasglu'r bêl.

Dylai'r athro ddarllen y frawddeg, gyda'r disgyblion yn dangos y symudiad cywir. Nawr gallwch greu eich brawddegau criced eich hun



---

## Sesiwn 6: Saesneg

---

Cyfnod Allweddol  
2 Is  
(Blynyddoedd 3 a  
4)

---

Rhaglen Ddysgu

---

Cwricwlwm  
Cenedlaethol:

- Atalnodi brawddegau gan ddefnyddio prif lythyren ac atalnod llawn, marc cwestiwn neu ebychnod
- 

---

### © Yr Her

---


## Mynd Drosto Eto!






Defnyddiwch ddarn am griced heb unrhyw atalnodi.

Ychwanegwch yr atalnodi cywir.

Darllenwch y darn yn uchel i'ch partner i weld a allan' nhw 'berfformio'r' atalnodi cywir.

**A** Adnodd Taflen Waith: Atalnodi



 Y	 ,	 .	 ?	 !
Prif Lythyren	Coma	Atalnod Llawn	Marc Cwestiwn	Ebychnod